Annwyl……

Ym mis Ebrill gofynnom i bawb sydd newydd gwblhau cwrs yma i gymryd rhan mewn arolwg i weld beth sy'n digwydd iddyn nhw ar ôl iddyn nhw adael *prifysgol/coleg*. Roedd gennym ddiddordeb mewn unrhyw waith neu astudiaethau pellach y byddech wedi ei wneud ar 12 Ebrill 2017. Nid ydym wedi clywed gennych hyd yn hyn.

Cliciwch ar y ddolen hon…… i gwblhau holiadur nawr. Ni ddylai gymryd ond ychydig funudau i'w gwblhau – mae'r rhan fwyaf o gwestiynau ond yn gofyn i chi ddewis blwch er mwyn ateb. Pan fyddwch wedi gorffen, gwnewch yn siwr eich bod chi wedi cyflwyno eich arolwg gorffenedig drwy ddilyn y cyfarwyddiadau. Gallwch lenwi'r holiadur ar-lein unrhyw bryd tan 23 Mehefin, ond cofiwch mai 12 Ebrill yw'r dyddiad sydd o ddiddordeb i ni er mwyn i ni fedru cymharu gwybodaeth pawb.

Os bydd angen cymorth arnoch wrth gwblhau'r holiadur, neu angen ei ddarllen mewn fformat gwahanol, cysylltwch â ni……

Rydym wedi cynnwys rhywfaint o wybodaeth ychwanegol ynglŷn â sut mae'r arolwg yn gweithio a beth fydd yn digwydd i'r wybodaeth a ddarperir gennych *isod/yn y ffeil sydd ynghlwm/drwy glicio ar y ddolen hon……*

Er eich bod chi wedi cwblhau eich cwrs erbyn hyn, mae'r gwasanaeth gyrfaoedd dal ar gael ichi gydag unrhyw faterion gyrfaol sydd gennych. Os hoffech gael unrhyw help gyda'ch cynlluniau gyrfaol, cysylltwch â ni yn……

Yn gywir……

**Ynglŷn â'r arolwg**

Arolwg cenedlaethol o bawb sydd newydd gymhwyso o unrhyw brifysgol neu goleg addysg uwch yn y DU yw'r arolwg hwn y gofynnwn ichi gymryd rhan ynddo. Bydd y wybodaeth yr ydych yn ei rhoi hefyd yn ddefnyddiol inni ym *mhrifysgol/coleg* i gynghori ein myfyrwyr presennol ynglŷn â'r cyfleoedd a all fod ar gael iddynt.

O blith y rheiny a enillodd gymwysterau ar draws y DU yn 2014/15, ymatebodd 79% i'r arolwg. O blith y rhain, dywedodd 72% eu bod yn gweithio a 6% arall eu bod yn gweithio ac astudio. Roedd 13% yn ymgymryd ag astudiaeth bellach yn unig. Tybiwyd bod 5% yn ddi-waith. Gellir gweld rhagor o ganlyniadau yn [https://www.hesa.ac.uk/news/30-06-2016/sfr237-destinations-of-leavers](https://www.hesa.ac.uk/news/30-06-2016/sfr237-destinations-of-leavers).

Os na fyddwn yn clywed gennych, fe geisiwn gysylltu â chi eto, dros y ffôn, felly rhowch wybod inni os byddwch chi'n newid eich cyfeiriad neu'ch rhif ffôn. Os na fydd modd i ni gael gafael arnoch o gwbl, efallai y gwnawn ni geisio cael gwybodaeth am yr hyn yr oeddech yn ei wneud gan rywun arall, naill ai yn y *brifysgol/coleg* neu rywun y gallwn gael gafael arno gan ddefnyddio'r manylion cyswllt a ddarparwyd gennych ynghynt. Os nad ydych am i ni wneud hyn, neu os nad ydych am roi gwybodaeth o gwbl, dywedwch wrthym. Isod mae manylion am yr hyn a ddigwyddith i'r wybodaeth ar ôl iddi gael ei hanfon atom.

Bwriedir cynnal arolwg dilynol ymhen tair blynedd er mwyn i ni gael rhagor o wybodaeth eto am yrfaoedd cynnar y rheiny sydd â chymwysterau addysg uwch. Efallai y gofynnir i chi gymryd rhan yn yr arolwg dilynol hwn hefyd, a fydd yn cael ei gynnal gan sefydliad gwahanol. Os nad ydych am gymryd rhan yn yr arolwg dilynol, dywedwch wrthym. Gallwch adael i ni wybod nad ydych am gymryd rhan yn yr arolwg dilynol drwy roi tic yn y blwch ar ddiwedd yr holiadur.

**Beth fydd yn digwydd i'ch gwybodaeth?**

<Gosodwch hysbysiad casglu eich darparwr addysg uwch yma ac yna, i ddilyn, rhowch ddolen i hysbysiad casglu HESA fel y nodir isod/*Please insert your higher education provider's own collection notice here and then follow with a link to the HESA collection notice as set out below*>

Byddwn yn anfon gwybodaeth a ddaw o'r arolwg hwn at yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA). Disgrifir y defnydd a wneir gan HESA o'ch ymatebion i'r arolwg yn [https://www.hesa.ac.uk/about/regulation/data-protection/notices/dlhe-c16018](https://www.hesa.ac.uk/about/regulation/data-protection/notices/dlhe-c16018).